

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideo gynadledda drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/6230>

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Mai 2020

Amser: 14.06 – 15.31

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd) Alun Davies AS Siân Gwenllian AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS Nick Ramsay AS Mark Reckless AS
Tystion:	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Margaret Davies, Llywodraeth Cymru Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir cyntaf y Pwyllgor Cyllid.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y cofnodion.

3 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch yr ymateb ariannol i bandemig COVID-19 gan y tystion a ganlyn: Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol; ac Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Cyllideb Atodol Gyntaf Comisiwn y Senedd 2020-21

6.1 Trafododd y Pwyllgor gais Gomisiwn y Senedd ynghylch ei Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2020-21, a nododd y cais hwnnw.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gomisiwn y Senedd i ofyn am wybodaeth ynghylch goblygiadau ariannol COVID-19 ar ei gyllideb.

7 Cyllideb Atodol Gyntaf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2020-21

7.1 Trafododd y Pwyllgor gais Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch ei Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2020-21, a nododd y cais hwnnw.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am wybodaeth ynghylch goblygiadau ariannol COVID-19 ar ei gyllideb.

8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Dull o gynnal gwaith craffu

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull o gynnal gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22. Yn wyneb y cyfyngiadau cymdeithasol presennol oherwydd COVID–19, cytunodd yr Aelodau i ymgymryd â mentrau ymgysylltu ar–lein er mwyn cynnwys rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn y broses o graffu ar y gyllideb ddrafft, yn hytrach na chynnal digwyddiad i randdeiliaid. At hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i ofyn am ddadl a gynigiwyd gan y Pwyllgor cyn toriad yr haf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru. Bwriedir i'r hyn sy'n deillio o'r mentrau ymgysylltu ar–lein i lywio'r ddadl.